Eitem 3

BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

23 IONAWR 2020, 11AM

Neuadd y Sir
Hwlffordd
SA61 1TP

Cofnodion

Yn bresennol

Y Cynghorydd Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Tessa Hodgson, Cyngor Sir Penfro
Jonathan Griffiths, Cyngor Sir Penfro
Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Judith Hardisty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hazel Lloyd-Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Jill Paterson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jake Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin
Estelle Hitchon, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
James Tyler, Cynrychiolydd Defnyddwyr
Karen Chandler, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Cathryn Thomas, Gofal Cymdeithasol Cymru
Donna Pritchard, Cyngor Sir Ceredigion
Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion

Hefyd yn bresennol:

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru (rhan amser)
Kirrin Davidson, Arweinydd Polisi (rhan amser)
Darren Mutter, Cyngor Sir Penfro (rhan amser)
Bernadette Toomey, Cyngor Sir Penfro (rhan amser)
Kim Neyland, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Martyn Palfreman, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau

Margaret Allen, Cynrychiolydd gofalwyr
Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru
Gareth Morgans, Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Cynghorydd Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion
Alan Thomas, Cynrychiolydd defnyddwyr
Jonathan Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin
Joanne Silverthorne, Cynrychiolydd gofalwyr
Gaynor Toft, Cyngor Sir Ceredigion

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a Kirrin Davidson, Swyddog Polisi, am ddod i'r cyfarfod. Yn dilyn hynny, cyflwynodd pawb eu hunain o gwmpas y bwrdd.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

3. Comisiynydd Plant Cymru: Trefniadau yng Ngorllewin Cymru ar gyfer gwasanaethau Integredig i blant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch ac i blant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl. [Trafodaeth] *Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn bresennol ar gyfer yr eitem hon*

Diolchodd y Comisiynydd i'r Bwrdd am y cyfle i ddod i'r cyfarfod, a hynny wedi iddi fod mewn cyfarfod arall gyda chynrychiolwyr plant o bob rhan o'r rhanbarth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019. Dywedodd ei bod yn y broses o ymweld â phob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i drafod ei dyheadau o ran (1) codi proffil materion plant o fewn y byrddau a (2) rôl gliriach iddynt wrth hyrwyddo gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phlant, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Byddai canfyddiadau o bob rhan o Gymru yn cael eu dadansoddi a byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi erbyn canol mis Mawrth.

Roedd hi'n cydnabod y byddai hyn yn cael ei wneud mewn ffyrdd gwahanol ledled Cymru, oherwydd heriau natur wledig rhai ardaloedd enghraifft. Roedd hi'n ymwybodol fod rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed gan y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol hyd yn hyn yn seiliedig ar oedolion, ac roedd hi'n gobeithio y gellid unioni'r cydbwysedd wrth symud ymlaen. Roedd cyfle yma yn sgil cyllid newydd. Roedd hi hefyd yn cydnabod nad oedd un dull rhanbarthol unffurf yn bosibl oherwydd gwahanol anghenion ledled Gorllewin Cymru ond teimlai fod cysondeb o ran ansawdd yn bwysig.

Ffocws y Comisiynydd oedd gwella profiadau plant a phobl ifanc wrth gynnig help llaw. Roedd hi o blaid dull 'no-bounce' neu 'no wrong door' lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael cymorth heb gael eu cyfeirio at asiantaeth arall.

Wedi hynny, gofynnodd y Comisiynydd gyfres o gwestiynau fel sail i'w thrafodaeth gydag aelodau'r bwrdd. Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar y meysydd canlynol:

Trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Dywedodd Martyn Palfreman fod y grŵp plant rhanbarthol yn y cam ffurfiannol a'i fod wedi cyfarfod unwaith yn unig hyd yn hyn. Dywedodd Ros Jervis, a oedd wedi

arwain y gwaith o ffurfio'r grŵp, ei fod wedi'i nodi i ddechrau fel 'tasglu plant'. Byddai'n canolbwyntio ar ddechrau a datblygu'n dda, edrych ar ganlyniadau plant a sut y gallai ymgorffori atal ac ymyrraeth gynnar eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn. Ni fyddai'r ffocws ar 'atgyweirio gwasanaethau' yn unig. Un o brif egwyddorion ei waith fyddai gwrando ar blant a theuluoedd. Esboniodd Sarah Jennings fod hon yn un o egwyddorion craidd y bartneriaeth, a oedd yn cael ei dangos wrth ffurfio cymuned ymarfer ymgysylltu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus gyda'r nod o gyrraedd pobl 'ar yr ymylon' i gyd-ddylunio gwasanaethau a phrofi eu heffaith. Roedd hyn yn ategu cynrychiolaeth defnyddwyr a gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, a mentrau lleol fel grantiau gofalwyr yng Ngheredigion, a ariannwyd trwy gyllid Y Gronfa Gofal Integredig a Thrawsnewid ar gyfer prosiectau rhyng-genhedlaeth ledled y rhanbarth, a esboniodd Hazel Lloyd Lubran eu bod yn allweddol wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn effeithiol.

Cydnabuwyd pwysigrwydd llywodraethu cadarn o ran sicrhau bod gwahanol ffrydiau cyllid yn cael eu hoptimeiddio. Ei her hi oedd defnyddio cyllid yn hyblyg, er nad oedd hyn bob amser yn hawdd oherwydd yr amodau ar wahân sy'n sail i'r ystod o gyllid sydd ar gael. Gofynnodd y Comisiynydd am enghreifftiau iddi godi mewn sgyrsiau gyda gweinidogion.

Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu a threfniadau pontio

Roedd y Comisiynydd yn awyddus i wybod faint o amser fyddai'n mynd rhagddo cyn bod yr unigolion yn cael eu rhoi mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cywir a beth oedd gweledigaeth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn hyn o beth. Nododd y Comisiynydd o drafodaethau blaenorol fodelau megis gweithwyr allweddol yn gweithio ar draws timau, ond awgrymodd pe bai trefniadau wedi'u hintegreiddio'n wirioneddol ni fyddai angen y rhain.

Cydnabuwyd nad oedd y ddarpariaeth yn gyson oherwydd amodau ac anghenion amrywiol ledled y rhanbarth. Fodd bynnag, teimlwyd bod trefniadau 'un pwynt mynediad' yn gweithio'n dda ar y cyfan. Roedd trefniadau pontio yn brif ganolbwynt ac yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, byddai gwasanaeth bob oedran ar draws gwasanaethau plant ac oedolion ar y gweill o Ebrill 2020.

Roedd rhaglen bum mlynedd i symud pobl o lety preswyl i lety byw â chymorth gyda chefnogaeth fel y bo'r angen ar y gweill, gyda Chyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei ddefnyddio i adeiladu neu ddatblygu safleoedd priodol. Roedd hwn yn ddull partneriaeth dilys ar draws y tri awdurdod lleol ac iechyd a byddai'n cyd-fynd ag agwedd ardal tuag at integreiddio o ran cefnogaeth ehangach.

Iechyd Meddwl ac ymddygiad

Cydnabu'r aelodau werth dull cyson yn seiliedig ar un pwynt mynediad; roedd ymrwymiad i geisio mynd â'r agenda hon yn ei blaen yn rhanbarthol, gan adeiladu ar ddulliau ysgolion cyfan ac iechyd emosiynol a chynnwys gweithwyr cymdeithasol mewn rhai timau CAMHS. Fodd bynnag, roedd cryn dipyn o waith i'w wneud eto, gyda heriau o ran galw a gallu. Tynnodd y Comisiynydd sylw at enghreifftiau o arfer da yng Ngorllewin Morgannwg (gweithiwr CAMHS wedi'i leoli mewn timau derbyn

gofal cymdeithasol) a Gwent (pob atgyfeiriad i gael ei ystyried gan un panel) y gellid eu hefelychu.

Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at wasanaethau atal lefel is ledled y rhanbarth, yn seiliedig ar y model 'Y Tîm o Amgylch y Teulu'.

Delio ag iechyd meddwl ac ymddygiad cymhleth

Nodwyd mai nod prosiect Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig oedd darparu llety rhanbarthol ar gyfer achosion cymhleth, dod â phobl yn ôl o leoliadau y tu allan i'r sir a'r tu allan i'r rhanbarth a darparu gofal arbenigol. Roedd safle ar gyfer uned addas wedi'i nodi yng Ngheredigion ac roedd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn gwbl gefnogol i'r fenter. Roedd trafodaethau ar y gweill gydag iechyd o ran lefelau priodol o ofal i gefnogi'r model.

Er bod pob asiantaeth yn cymryd rhan i raddau ac y bydd yn ddarpariaeth ranbarthol, roedd gwahaniaeth barn ar lefel yr angen a'r gofyniad a oedd wedi achosi rhai anawsterau wrth roi'r rhaglen ar waith. Roedd y Comisiynydd yn nodi y byddai anawsterau o'r fath yn cael eu hamlygu - er na chânt eu priodoli i Orllewin Cymru - yn ei hadroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd am ddod i'r cyfarfod ac am ei thrafodaeth fuddiol. Dywedodd y Comisiynydd ei bod hi'n falch o glywed am y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Ngorllewin Cymru a'i bod yn edrych ymlaen at gael rhagor o ddiweddariadau.

Roedd oedi o ran adroddiad y Comisiynwyr oherwydd achosion o Covid ac roeddem yn aros am gyngor pellach gan ei swyddfa. Bydd disgwyl i ni wedyn ymateb i argymhellion a, hyd nes y bydd datblygiadau pellach, cheisio dod ag ymateb drafft i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.

4. Y diweddaraf am yr aelodaeth

Rhoddodd Martyn Palfreman y wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn:

Roedd Steven Griffiths wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd fel cynrychiolydd gofalwyr

Byddai Carys James yn ymddeol ym mis Mawrth a hyd nes y byddai ei holynydd yn cael ei benodi, byddai Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei gynrychioli gan Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol) a Donna Pritchard (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Oedolion).

Roedd Hilary Jones, Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin wedi cael ei henwebu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) yn y rhanbarth i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Dywedodd Sarah Jennings fod Hilary wedi camu o'r neilltu yn ddiweddar fel Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a bod Hazel Lloyd Lubran wedi cymryd yr awenau. Byddai hyn yn gysylltiad gwerthfawr arall rhwng y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Mynegodd yr aelodau eu diolch i Steven a Carys am eu cyfraniad at waith y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a chytunwyd y dylid gwahodd Hilary Jones yn ffurfiol i ymuno â'r Bwrdd fel cynrychiolydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Heb geisio cynrychiolydd gofalwr ychwanegol, ond bydd yn gwneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf

5. Cynllun Gaeaf Rhanbarthol

Dywedodd Martyn Palfreman fod cyllid o £2.062m ar gael i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer y gaeaf fel rhan o gyfanswm o £3.275m yn y rhanbarth. Roedd yr £1.213m arall wedi'i dalu'n uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd. Dosrannwyd y dyraniad Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar sail poblogaeth a datblygwyd cynlluniau lleol, wedi'u halinio i fynd i'r afael â saith thema graidd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd cydweithio â chydweithwyr iechyd wedi arwain at aliniad pellach rhwng cynlluniau'r Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, gan geisio meithrin gallu yn y sectorau acíwt a chymunedol i leihau pwysau ar y system. Roedd adroddiadau cyflwyno ac effaith yn cael eu creu yn rheolaidd ar gyfer Llywodraeth Cymru ac fe'u cyflwynwyd yn rheolaidd i'r Grŵp Gweithredol Integredig yn ogystal. Byddai adroddiad llawnach ar yr effaith yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Mawrth. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Pwysleisiodd Jake Morgan pa mor bwysig oedd dysgu gwersi a chymhwyso dysgu i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer gaeaf 2020-21 cyn cyhoeddi cyllid. Byddai hyn yn helpu i osgoi oedi o ran cyhoeddi cyllid. Cytunwyd y dylai gwaith cydweithredol yn ymwneud â chydweithwyr o bob sector ddechrau erbyn mis Mai, yn dilyn gwerthusiad llawn o gynlluniau 2019-20. Bydd modd wedyn cynnal ymarferion efelychu cyn cyfnod y gaeaf, a bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cael ei werthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo. **GWEITHREDU: Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithredwyr Iechyd**

Pwysleisiodd Estelle Hitchon a Jill Paterson pa mor bwysig oedd newid diwylliant ac ymarfer ehangach ar draws y system, gan gynnwys ail-fframio disgwyliadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd angen i gynlluniau ar gyfer y gaeaf fod yn rhan o ymdrech drawsnewid ehangach.

Nid oedd gwaith penodol wedi cael ei wneud o ran cynllun y gaeaf oherwydd Covid ond byddwn yn ceisio rhoi rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf - yn rhan o'r ymdrechion adfer/cynllunio ar gyfer yr ail don ac ati.

6. Gorllewin Cymru Iachach: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Rhoddodd Martyn Palfreman ddiweddariad cryno am y rhaglenni a gymeradwywyd o fewn Gorllewin Cymru Iachach, a ariannir trwy'r Gronfa Trawsnewid. Cytunwyd y byddai adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Mawrth.

Soniodd ymhellach am y cyhoeddiad diweddar a wnaed am adnoddau ychwanegol i ranbarthau o'r Gronfa Trawsnewid ar gyfer rhaglenni ychwanegol sydd yn

adlewyrchu'r blaenoriaethau cyllido gwreiddiol ond gyda ffocws rhanbarthol / cenedlaethol (£1.4m ar gyfer Gorllewin Cymru ac atal a'r blynyddoedd cynnar (£742K ar gyfer Gorllewin Cymru yn 2019-20 ac yn 2020-21). Roedd angen cyflwyno cynigion ar gyfer yr un cyntaf i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mawrth ac felly byddai angen ei gymeradwyo'n rhithwir gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Roedd cynigion wedi'u datblygu ar gyfer atal ac arian blynyddoedd cynnar, wedi'u llofnodi gan Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a byddai'r gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cychwyn ar unwaith.

Yn olaf, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am adroddiad gwerthuso canol tymor a luniwyd gan y gwerthuswyr allanol ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru Iachach ac a oedd yn cynnwys manylion y rhaglenni cyfansoddol, llywodraethu ategol, a dysgu cynnar a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi sut y byddai effaith yn cael ei mesur wrth symud ymlaen gan ddefnyddio'r fframwaith canlyniadau a manteision rhanbarthol. Byddai'n cael ei ddefnyddio fel dogfen ffynhonnell, ynghyd ag adroddiadau o ranbarthau eraill, er mwyn cyflwyno adroddiad canol tymor cenedlaethol cyfansawdd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwedd mis Mawrth. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod adroddiad Gorllewin Cymru wedi pwysleisio nad oedd canlyniadau clir yn rhan o'r rhaglenni hyd yma, o ystyried y cam cyflwyno cynnar a weithredwyd. Roedd hyn oherwydd y cyfnod rhagarweiniol cymharol hir sy'n ofynnol ar gyfer rhaglenni cymhleth o'r natur hon, i ddarparu ar gyfer sefydlu llywodraethu a recriwtio ategol i swyddi allweddol ac ati. Roedd yr heriau hyn yn gyffredin ledled Cymru ac yn codi cwestiynau, fel y codwyd o'r blaen, ynghylch hyd cyfyngedig y gronfa.

Gofynnodd Judith Hardisty am y cyllid isel a hawliwyd hyd yn hyn, a dywedodd Martyn Palfreman (1) y byddai'r hawliad chwarterol nesaf yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Ionawr a (2) roedd y blaen-broffil yn awgrymu gwariant llawn erbyn diwedd y cyfnod cyllido (Mawrth 2021). Gofynnodd hefyd a ellid mynd i'r afael â'r rhwystrau cyffredin yn y cyfnod sefydlu yn fwy effeithiol fel y rhai a restrir uchod. Nodwyd bod y diffyg ystwythder yn y broses graidd fel Adnoddau Dynol a chyllid, o fewn ac ar draws asiantaethau, yn ffactor allweddol yr oedd angen mynd i'r afael ag ef.

Diweddariad - mwy o dan Eitem 4, ond rydym wedi bod yn gweithredu'r rhaglenni gyda gweithgaredd sydd wedi'i addasu i fynd i'r afael â Covid. Fodd bynnag, mae cwmpas a strwythur y rhaglenni wedi bod yn addas i'r ymateb, yn wahanol i rai rhanbarthau eraill. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am weithgaredd ac adnoddau wedi'u hailgyfeirio o fewn y rhaglenni o bell dros yr wythnosau nesaf.

Roedd oedi o ran y gwerthusiad rhanbarthol a daeth y contract gyda'n gwerthuswyr i ben. Yn y cyfamser byddwn yn adolygu cyfleoedd ar gyfer gwerthuso adweithiol a byddwn yn parhau i fesur effaith rhaglenni i lywio cynllunio yn y dyfodol (er nad oes eglurder gan Lywodraeth Cymru am gyllid yn y dyfodol ar ôl Mawrth 2021 - roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt cyn Covid). Roedd adroddiad gwerthuso cenedlaethol wedi'i ddrafftio ond roedd oedi yn ei gylch ar hyn o bryd.

7. Hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Cyfeiriodd Martyn Palfreman yr aelodau at ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i fod yn sail i ddau beilot hunanasesu deublyg ar draws Cymru, cyn eu cyflwyno ar draws pob Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Er mai'r bwriad yng Ngorllewin Cymru yn wreiddiol oedd mynegi diddordeb mewn bod yn beilot, o ystyried materion yn ymwneud â gallu ac amser, argymhellwyd i'r Bwrdd i beidio â gwneud cais bellach i gymryd rhan ar hyn o bryd. Ni fyddai hyn yn atal defnyddio'r deunyddiau i gynnal hunanasesiad lleol o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, y Grŵp Gweithredol Integredig a haenau eraill o lywodraethu rhanbarthol yn ystod y misoedd nesaf.

Cytunwyd ar y dull hwn a gofynnwyd am gynnig wedi'i gostio ar gyfer rhaglen a reolir yn lleol yn y cyfarfod nesaf. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Awgrymodd Maria Battle y byddai'r ymarfer hwn yn werth ei wneud ac yn enwedig o ran y dull rhanbarthol o drawsnewid ac ati, er mwyn rhyngweithio'n fwy rhagweithiol â rhanbarthau eraill i rannu profiad a dysgu. Esboniodd Martyn Palfreman fod amryw o fforymau cenedlaethol yn bodoli i hwyluso cyfnewid o'r fath. Cytunwyd y dylid ceisio cyfleoedd ychwanegol yn y maes hwn. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Oedi ynghylch Rhyngweithio rhyng-ranbarthol ar hyn o bryd

Hunanasesiad - Roedd gwaith yn mynd rhagddo o safbwynt y dull a bydd yn cael ei rannu yn rhithiol. Ceisio gwneud rhywbeth ar wahanol haenau a myfyrio'n benodol ar waith dros y 10 wythnos ddiwethaf ac effaith/effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu dros dro (amlder, gwneud penderfyniadau, aelodaeth ac ati)

8. Darparu Cymorth i ofalwyr: Adroddiad Cynnydd Ebrill-Medi 2019

Fel Cadeirydd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru, (WWCDG) cyflwynodd Anna Bird yr eitem. Roedd yr aelodau wedi cael copi o'r adroddiad bob yn ail flwyddyn ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn yr hydref. Dechreuodd drwy bwysleisio bod y grŵp yn awyddus i sicrhau bod llais gofalwyr yn dylanwadu ar y gwaith a dywedodd fod cynrychiolwyr y gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cael gwahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru. Roedd y grŵp hefyd yn cynnal gweithdy cynllunio ar 24 Ionawr gyda rhanddeiliaid i drafod datblygu strategaeth Gofalwyr ranbarthol.

Tynnodd Anna sylw at rai o'r meysydd gwaith yr oedd y grŵp wedi bod yn ymwneud â nhw, gan gynnwys penodi Swyddogion Gofalwyr sydd newydd ddechrau swyddi ym mhob un o'r ysbytai, ynghyd â chysylltu â thimau cymunedol ac integredig. Byddai'r Swyddogion Gofalwyr yn gorfod darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a chefnogi cyfranogiad gofalwyr o ran rhyddhau cynllunio, ynghyd â chynnig gwybodaeth a chyngor i staff a gofalwyr. Roedd hwn yn waith sy'n cysylltu â chamau Cynllunio ehangach ar gyfer y Gaeaf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at waith arloesol yng Ngheredigion ar wytnwch a llesiant gofalwyr, a'r gwaith sydd hefyd yn cael ei arwain ar ran y rhanbarth i dreialu cardiau adnabod ar gyfer Gofalwyr Ifanc.

Dywedodd Anna fod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad am ei Ymchwiliad diweddar cyn y Nadolig a oedd yn cynnwys 31 o argymhellion. Nodwyd mai Anna a'r Cynghorydd

Jane Tremlett fyddai'n cynrychioli'r rhanbarth ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog (MAG) ar gyfer Gofalwyr. Byddai'r grŵp hwn yn ganolog i ddatblygiad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr, a fydd hefyd yn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad.

Gofynnodd Maria Battle a fyddai cardiau adnabod gofalwyr ifanc yn caniatáu i'r gofalwr gael gwybodaeth feddygol am bwy y mae'n gofalu amdano. Dywedodd Anna fod gwaith i'w wneud o hyd o ran diffinio sut y byddai'r cardiau'n cael eu defnyddio. Ar hyn o bryd byddai'r cardiau'n rhoi pwyslais ar rôl yr unigolyn fel gofalwr, ond ni fyddent yn eu galluogi i weld y wybodaeth honno ar hyn o bryd, ond uchelgais yw hon i sicrhau ei bod yn ystyrlon i'r gofalwr.

Diolchwyd i Anna am y diweddariad ar y gwaith a gyflawnwyd gan y WWCDG a nodwyd bod llawer wedi'i gyflawni mewn cyfnod byr.

Byddai adroddiad diwedd blwyddyn yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn yr agenda

9. Diweddariad ynghylch Cronfa Gofal Integredig

Rhoddodd MP ddiweddariad cryno ar gynnwys yr adroddiad, gan dynnu sylw at argymhellion yr adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau llywodraethu a rheoli yng Ngorllewin Cymru ac Adroddiad Blynyddol cenedlaethol cyntaf y Gronfa Gofal Integredig a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr a sut yr oedd y rhain yn cael sylw yn y rhanbarth.

Nodwyd y byddai adroddiad manwl ar raglenni cyfredol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Mai. Yn y cyfamser, byddai cynllun buddsoddi refeniw 2020-21 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Mawrth er mwyn ei gymeradwyo.

Awgrymodd Steve Moore, ochr yn ochr ag ystyriaeth fanwl o ran effaith rhaglenni Gorllewin Cymru, y byddai gwahodd rhanbarthau eraill i gyflwyno eu rhaglenni Cronfa Gofal Integredig a Thrawsnewid yn fuddiol er mwyn ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu ac ati. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Roedd adroddiad ar y prif bwyntiau ar 19-20 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ond bydd gwaith manylach yn cael ei wneud a bydd yr adroddiad yn cael ei rannu.

Bydd cynllun buddsoddi refeniw 20-21 ynghyd ag adnoddau wedi'u hailgyfeirio wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai a chânt eu rhannu fwy neu lai gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w cymeradwyo

10. Adborth o gyfarfod y Gweinidog gyda Chadeiryddion Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol 16 Ionawr 2020

Rhoddodd Martyn Palfreman grynodeb byr o'r cyfarfod diweddar rhwng Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru, yr oedd wedi mynychu yng nghwmni Jane Tremlett. Roedd y drafodaeth yn cynnwys opsiynau posibl ar gyfer cyllid olynol i'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Drawsnewid, a byddai trafodaeth

yn cael ei chynnal yn nigwyddiad dysgu'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yng Nghaerdydd ar 12 Chwefror, ac amlinellu cynigion gan y bwrdd cynghori trawsnewid cenedlaethol ynghylch datblygu arweinyddiaeth ar y cyd ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Byddai adroddiad ysgrifenedig manylach yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Dywedodd Martyn hefyd y byddai Canllawiau Statudol diwygiedig ar gyfer Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael eu mabwysiadu cyn bo hir, gan adlewyrchu newidiadau i reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019. Roedd goblygiadau posibl i'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac yn unol â hynny, awgrymwyd y byddai newidiadau i'r rhain yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth. **GWEITHREDU: Martyn Palfreman**

Byddai'r Cylch Gwaith yn cael ei adolygu'n ffurfiol ym mis Gorffennaf

11. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Medi 2019 a materion yn codi

Eitem 7 - Cyfnod Cyllido'r Gronfa Drawsnewid

Cadarnhaodd Martyn Palfreman y byddai'r cytundeb gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ymestyn i 31 Mawrth 2021, yn dilyn pwysau gan arweinwyr Gorllewin Cymru a rhanbarthau eraill.

Eitem 12 - Mapio cyllid Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dywedodd Martyn Palfreman fod llythyr ar y cyd gan gadeiryddion y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ledled Cymru wedi'i gyflwyno mewn ymateb i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Andrew Goodall a rannwyd gyda'r Bwrdd yn y cyfarfod blaenorol. Nodai'r ymateb fod angen i Lywodraeth Cymru a rhanbarthau gydweithio er mwyn edrych ar opsiynau i symleiddio ffrydiau cyllido a llywodraethu cysylltiedig, fel rhan o'r trafodaethau cyllido yn y dyfodol.

12. Y cyfarfod nesaf:

19 March 2020, 10.00AM, Lleoliad i'w gadarnhau